CYNGOR CYMUNED LLANDDYFNAN

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD NOS IAU
7 Rhagfyr 2017, Neuadd Talwrn
am 7:30 y.h.

YN BRESENNOL: Cyng D Pritchard, W Vaughan, D Morgan, A Williams, W Williams, Cyng D Rees (Cyngor Sir) a 6 aelod o'r cyhoedd	
YMDDIHEURIADAU: Cyng D ap Rhobert, D Roberts	
1	Cadeirwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd Cyng D Pritchard. 'Roedd rhan gyntaf o'r cyfarfod yn agored i'r cyhoedd i drafod lleoliad lloches bws newydd yn Talwrn. Cytunwyd i symud y lloches bresennol wrth ymyl Half Way a lleoli ar ochr arall i'r lôn gyferbyn a'r tai cyngor a cael lloches mwy i'r plant ysgol wrth ymyl Half Way. Bydd y Clerc yn trefnu cael prisiau.
2	**DATGAN DIDDORDEB** - Dim
3	**DERBYN COFNODION** Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod 17 Hydref 2017. Fe'u derbyniwyd fel rhai cywir a chyflawn. Cyng W Vaughan yn cynnig a Cyng D Morgan yn eilio.
4	**MATERION YN CODI O'R COFNODION**
4.1	**Gofeb Talwrn** - Mae'r Clerc yn disgwyl ymateb gan yr Eglwys yng Nghymru i wneud a symud y plac o Eglwys Llanddyfnan i'r gofeb
4.2	**Damwain sgwar Talwrn** - mewn llaw
4.3	**Halfway, Talwrn (ildio)** - mewn llaw
4.4	**Mynwent Llanddyfnan (perchnogaeth)** - mewn llaw
4.5	**Llwybr Cyhoeddus Bodffordd - Llyn Frogwy** - Cytunwyd i ddisgwyl am canlyniad yr ymgynghoriad (Mehefin - Medi 2017) barn ar rheolau adnoddau naturiol.
4.6	**Paentio rheiliau y Gofeb** - mae'r gwaith wedi cael ei wneud. Bydd y Clerc yn anfon llythyrau yn diolch i Mr G Williams a Mr A Davies.
4.7	**Lloches Bws** - gweler uchod
4.8	**Tyfiant o gwmpas arwydd y siop** - bydd y Gang Cymunedol (Cyngor Sir) yn gwneud y gwaith
4.9	**Polisi y Cyngor Sir ar cwn ar y traethau** - Mae'r Clerc wedi derbyn linc i'r polisi gan y Cyngor Sir a bydd yn trosglwyddo i Cyng D ap Rhobert
4.10	**Llyn Frogwy** - Darllenwyd llythyr gan Eleri Cwyfan yn dweud bod y gwaith dan orchymyn oddiwrth Cyfoeth Naturiol Cymru
4.11	**Coed angen torri - Talwrn** - mewn llaw
4.12	**RAF y Fali** - Darllenwyd ymateb yn dweud dim ond dau cwyn sydd wedi'i dderbyn yn ddiweddar (un cynnwys un o Bodffordd) ac yn gofyn i'r cyhoedd cysylltu a nhw gyda unrhyw problemau.
4.13	**Canolfannau Hamddden** - disgwyl ymateb gan y Cyngor Sir
	Llofnod…….Cadeirydd 16.01.18

5	**GOHEBIAETH CYNGOR YNYS MON**
	Priffyrdd
5.1	Llwybr Cyhoeddus i Lyn Frogwy - gweler 4.5
5.2	Tyfiant o gwmpas arwydd y siop - gweler 4.8
	Pwyllgor Safonnau
5.3	Ymgeiswyr llwyddiannus - Cyng I Roberts (Bryngwran) a Cyng K Roberts (Bae Trearddur)
	Cynllunio
5.4	23C346A/LB Caniatad Adeilad Rhestredig ar gyfer gwaith mewnol ac allanol yn Pen Llyn Cottage, Llanbedrgoch - dim sylwadau
6	**GOHEBIAETH YCHWANEGOL**
6.1	Deio Jones - Cyfleon Prosiect Newydd - cytunwyd i cynnig gwahoddiad i Mr Jones i siarad yn y cyfarfod nesaf
6.2	Cadnant Planning - cais cynllunio am ddatblygiad llety gwyliau, Plas Llanfihangel, Capel Coch - bydd y Clerc yn anfon y linc i'r aelodau
7	**MATERION ARIANNOL**
	Cytunwyd i dalu
7.1	G Hughes torri llwybrau £475.00
7.2	Zurich Municipal £257.60
8	**MATERION ERAILL**
8.1	Mae'r Clerc wedi derbyn pris gan Mr Gareth Hughes am torri gwair - 2018. Cytunwyd i gofyn am pris arall.
8.2	Dywedodd Cyng W Williams bod y giat mochyn (wrth ymyl y coed cnau) ar llwybr cyhoeddus yn mynd am Bodeilio wedi torri. Bydd y Clerc yn dod ar mater at sylw y Cyngor Sir
8.3	Trafodwyd cwyn am dwr ar y ffordd ochr arall i Tyn y Felin Llanddyfnan - mae angen agor ochrau y ffordd. Bydd y Clerc yn dod a'r mater at sylw y Cyngor Sir.
	Llofnod…….Cadeirydd 16.01.18